



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



**Cyfarfod Bwrdd ar y Cyd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CIGGC)**

Cofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 15.10.20 dros Webex Conferencing

Yn bresennol:

Bwrdd Iechyd

Mark Polin, Cadeirydd
Nicky Callow, Aelod Annibynnol (Prifysgol)
Cheryl Carlisle, Aelod Annibynnol
John Cunliffe, Aelod Annibynnol
Gareth Evans, Aelod Bwrdd Cysylltiol
Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Arpan Guha, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro
Gill Harris, Prif Weithredwr Dros Dro
Debra Hickman, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro
Nyrsio a Bydwreigiaeth
Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid
Jackie Hughes, Aelod Annibynnol
Eifion Jones, Aelod Annibynnol
Lyn Meadows, Aelod Annibynnol
Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Lucy Reid, Is-gadeirydd
Dawn Sharp, Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro
Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned (rhan o'r cyfarfod)
Adrian Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd
Ffrancon Williams, Aelod Bwrdd Cysylltiol
Mark Wilkinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad

Cyngor Iechyd Cymuned

Jackie Allen, Cadeirydd
Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog
Joy Baker, Pwyllgor Lleol Conwy
Richard Bladon, Pwyllgor Lleol Ynys Môn
Andy Burgen, Is-gadeirydd
Rhys Davies, Pwyllgor Lleol Sir Ddinbych
Di Gill, Pwyllgor Lleol Sir y Fflint
Celia Hayward, Pwyllgor Lleol Wrecsam
Stella Howard, Pwyllgor Lleol Sir y Fflint
Michael Lloyd-Williams, Pwyllgor Lleol Gwynedd
Aaron Osborne-Taylor, Pwyllgor Lleol Ynys Môn
Sian Ramessur, Pwyllgor Lleol Conwy
Mike Theaker, Pwyllgor Lleol Sir Ddinbych
Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog
Roger Williams, Pwyllgor Lleol Conwy

Yn Bresennol:

Kate Dunn, Pennaeth Materion Corfforaethol - ar gyfer cofnodion
Simon Evans-Evans, Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro

Gavin McDonald, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
 John Morrell, Cefnogaeth Gwybodeg
 Llinos Roberts, Rheolwr Busnes Gweithredol
 Emma Scott, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (rhan
 o'r cyfarfod)

Eitem Agenda a Drafodwyd	Gweithredu erbyn
<p>B20/1 Croeso'r Cyd-gadeiryddion</p> <p>B20/1.1 Croesawodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd pawb i'r cyfarfod Bwrdd ar y cyd a nodi bod y cyfarfod yn cael ei recordio'n fyw i ganiatáu aelodau'r cyhoedd i wyllo'r cyfarfod mewn amser real. Bu iddo longyfarch Cadeirydd newydd y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) a chroesawu Emma Scott fel arsyllwr o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.</p> <p>B20/1.2 Aeth Cadeirydd y Bwrdd Iechyd ymlaen i amlinellu ystod o feysydd gwaith sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan y Bwrdd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Paratoi at ddyfodiad y Prif Weithredwr newydd ym mis Ionawr 2021; • Dychwelyd yn ôl yn ddiogel at ddarparu gofal wedi'i gynllunio, gan nodi bod dealltwriaeth llawer gwell yn awr am y galw a'r capasiti i ganiatáu deialog mwy adeiladol gyda Llywodraeth Cymru (LLC) wrth symud ymlaen; • Datblygu cynlluniau Chwarter 3 a Chwarter 4; • Ail-ymweld ag achos busnes ar gyfer gwasanaethau orthopaedig; • Sefydlu cyrchlu i gefnogi datblygu achos busnes ar gyfer Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd ar gyfer Gogledd Cymru; • Sefydlu canolfan diagnostig a thriniaeth ar gyfer Gogledd Cymru; <p>B20/1.3 Bu i Gadeirydd y Bwrdd Iechyd hefyd ddiolch i'r Tîm Gweithredol am eu harweinyddiaeth ac am ddewrder a phroffesiynoldeb parhaus y staff rheng flaen yn ystod y cyfnod hwn.</p> <p>B20/1.4 Bu i Gadeirydd y CIC groesawu'r cyfle i gyfarfod ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a diolch i'r aelodau am roi o'u hamser i ddod.</p>	
<p>B20/2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>B20/2.1 Cofnodwyd ymddiheuriadau gan Morwena Edwards, Andy Roach a Helen Wilkinson o'r Bwrdd Iechyd, a Linda Harper a Gordon Hughes o'r CIC.</p>	
<p>B20/3 Datganiadau Diddordeb</p> <p>B20/3.1 Bu i Sian Ramessur ddatgan diddordeb yn eitem B20/6 Gwasanaethau Iechyd Meddwl o ran bod aelod teulu yn ddefnyddiwr gwasanaeth o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS).</p>	
<p>B20/4 Cofnodion Drafft y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y Cyd ar 10.10.19 er cywirdeb ac adolygu'r gweithredoedd</p> <p>B20/4.1 Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir a nodwyd bod yr holl weithredoedd wedi cau neu i'w wneud. Cadarnhaodd Sian Ramessur yn nhermau</p>	

gweithred B19/10, ei bod wedi cyfarfod â Chyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned ac yn fodlon â'r ymateb.	
--	--

<p>B20/5 Diweddariad COVID-19</p> <p>Bu i Gadeirydd y CIC wahodd ystod o gyflwyniadau a fyddai'n rhoi diweddariad am y sefyllfa Covid-19. Nodwyd y bydd trefn yr eitemau agenda yn amrywiol i ganiatáu presenoldeb swyddogion y Bwrdd lechyd mewn cyfarfod parhaus arall.</p>	
<p>B20/5.2 Imiwneiddio</p> <p>B20/5.2.1 Bu i'r Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus roi cyflwyniad a oedd yn nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod cynlluniau brechu torfol a oedd wedi'u datblygu'n dda ar gyfer Gogledd Cymru; • Bydd yr amserlen yn ddibynnol ar argaeledd y brechiad a'u bod yn aros am ganllawiau gan LLC o ran y dos a'r grwpiau blaenoriaeth; • Bydd her sylweddol o ran yr elfen gweithlu a chynnal busnes fel yr arfer; • Bod yr ymgyrch brechu rhag y fflwyl yn mynd rhagddi'n dda. 	
<p>B20/5.3 Profi</p> <p>B20/5.3.1 Bu i'r Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus roi cyflwyniad a oedd yn nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod gweithredu strategaeth y llywodraeth ar gyfer profi wedi bod yn gadarnhaol iawn yn nhermau gweithgaredd partneriaeth; • Cafodd tair elfen Profi, Orlhain a Diogelu (TTP) eu hegluro ynghyd â'r trefniadau ar gyfer profion antigen a phrofion gwrthgyrff; • Bod Pwyllgor Strategaeth, Partneriaeth a Phoblogaeth lechyd y Bwrdd wedi cael diweddariadau rheolaidd ar ddatblygiad TTP a chynrychiolwyd y Bwrdd mewn grwpiau cydlynol strategol a rhanbarthol hefyd. <p>B20/5.3.2 Bu i Gadeirydd y Bwrdd lechyd ddiolch am yr arweinyddiaeth a ddangoswyd yn y maes gwaith hwn.</p>	
<p>B20/6 Gwasanaethau lechyd Meddwl</p> <p>B20/6.1 Bu i'r Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus roi cyflwyniad a oedd yn nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei bod wedi derbyn croeso cadarnhaol iawn o ran cymryd y rôl arweinyddiaeth Weithredol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl; • Y meysydd a ganolbwyntir arnynt ar hyn o bryd o fewn timau iechyd meddwl gofal cychwynnol, yn enwedig o ran asesiadau wyneb yn wyneb a rhithiol; • Defnydd o'r gwasanaeth "Consultant Connect"; • Ail-sefydlu timau iechyd meddwl cymuned; • Ail-agor elfennau o wasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn; • Gweithio i sicrhau gofal cleifion mewnol cadarn ochr yn ochr â chynllunio tymhorol; • Bod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn hollol weithredol; • Bod y cynllun ar gyfer Cam 1 ar gyfer anableddau dysgu yn parhau; • Bod Grŵp Profiad Gofal a Chleifion yr uwch adran wedi'i ail-gyflwyno; • Bod sefydlogrwydd uwch arweinyddiaeth ar draws yr Uwch Adran wedi gwella ynghyd â mecanwaith adrodd; • Amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer yr uwch adran yn nhermau trefniadau rheoli a llywodraethu clinigol; ymgysylltu â staff, defnyddwyr a rhanddeiliaid; gwneud adolygiad gwaelodlin o'r capasiti a galluedd gan fyfyrion ar waith llwybrau clinigol; a darparu gwasanaethau dan arweiniad clinigol mewn partneriaeth. 	

B20/6.2 Cafwyd trafodaeth. Cyfeiriodd Cadeirydd y CIC at adroddiad diweddar gan yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro a oedd wedi tynnu sylw at faterion o bwys a heriau allweddol sy'n wynebu'r Uwch Adran. Awgrymodd bod y materion hyn yn cyd-fynd â llawer o ganfyddiadau'r CIC o ran yr Uwch Adran a gafodd ei anfon allan yn flaenorol. Roedd hefyd yn falch o weld bod llawer o'r prif flaenoriaethau a rannwyd gyda'r Pwyllgor QSE yn cael eu hadlewyrchu yn y cyflwyniad a oedd yn awr wedi'i ddarparu. Byddai'r CIC yn dymuno parhau i fod yn rhan ac ymgysylltu yn y gwaith i symud gwasanaethau iechyd meddwl ymlaen a byddant yn gwerthfawrogi diweddariad gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro er mwyn gwerthuso unrhyw welliannau a wnaed ers ei benodiad. Cyfeiriodd Prif Weithredwr CIC at gyfarfod diweddar gyda'r Bwrdd Iechyd a chroesawodd y sgwrs agored am sut all y cyhoedd a phartneriaid ymgysylltu'n well mewn darparu newid a gwelliannau. Roedd hefyd yn teimlo bod penodi Gweinidog ar gyfer Iechyd Meddwl yn gam cadarnhaol ymlaen. Codwyd cwestiwn am CAMHS a chadarnhawyd bod hyn yn cael ei osod ym mhortffolio'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned er bod cysylltiadau amlwg drosodd at wasanaethau oedolion. Byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus yn ymateb yn uniongyrchol i aelod y CIC a holodd am faint o blant o fewn CAMHS aeth ymlaen i gael cefnogaeth gan wasanaethau iechyd meddwl oedolion. Ychwanegodd Prif Swyddog CIC y byddai'r gwaith ymgysylltu ar y cyd yn ystyried CAMHS ochr yn ochr â gwasanaethau iechyd meddwl eraill. Cytunodd Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd bod heriau parhaus yn nhermau gwasanaethau iechyd meddwl ond roedd yn falch o glywed bod y CIC yn cefnogi'r cyfeiriad yr oedd yn symud iddo a rhoddodd sicrwydd iddynt fod y Bwrdd Iechyd yn hollol ymrwymedig i wneud gwelliannau. Ychwanegodd y byddai aelodaeth a swyddogaeth y Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cael ei adolygu i'w wneud yn fwy dynamig. Ychwanegodd Aelod Annibynnol y Bwrdd Iechyd ei bod yn croesawu rhoi ffocws newydd ar arweinyddiaeth a oedd yn amlwg o fewn y gwasanaeth. Daeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus i gasgliad drwy nodi y byddant yn adeiladu ar y cryfderau sydd eisoes yn bod yn y gwasanaeth, a byddai diweddariad yn cael ei roi'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd gan adrodd yn rheolaidd drwy'r Pwyllgor QSE. Roedd yn dymuno cydnabod cefnogaeth y CIC a gwerth eu hymweliadau ar draws gwasanaethau iechyd meddwl.

TO

B20/5.1 Dychwelyd at Wasanaethau'n Ddiogel

[Ymunodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned â'r cyfarfod]

B20/5.1 Bu i'r Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro roi cyflwyniad a oedd yn nodi:

- Graddfa'r heriau sy'n wynebu'r sefydliad yn cynnwys effaith Covid, cynnydd pryderus yn y rheiny sy'n aros dros 36 wythnos; gweithgarwch theatr cyfyngedig; gweithgarwch cyfyngedig o fewn gwasanaethau hanfodol ac oediadau o ran ail-ddechrau gwasanaethau arferol.
- Y dull haeniad risg a fabwysiadwyd ar draws Cymru ar gyfer cam 4 a datblygiad model capasiti Gogledd Cymru;
- Cynnydd yn erbyn y rhaglen adfer/ail-ddechrau Chwarter 3 a 4 i ddeall gweithgarwch gwaelodlin; cynnal gwasanaethau hanfodol; datblygu dull "Unwaith ar gyfer Gogledd Cymru" mewn arbenigeddau allweddol ac ail-ddechrau mwy o wasanaethau cleifion allanol arferol;

<ul style="list-style-type: none"> • Ail-ddechrau llawfeddygaeth a gofal y llygaid trwy haeniad risg y rhestr aros gyda llawfeddygaeth cataract wedi dechrau ers mis Awst; • Yr her i gynnal gwasanaethau hanfodol ochr yn ochr â chynlluniau'r gaeaf a lefelau cynyddol o lawfeddygaeth ddewisol; <p>B20/5.2 Cafwyd trafodaeth. Ychwanegodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai datblygu canolfannau diagnostig a thriniaeth yn caniatáu gallu mynd i'r afael â'r ôl-groniad a gwella darparu'r strategaeth gofal a gynlluniwyd hefyd. Roedd hefyd yn ymwybodol bod dysgu o Covid wedi dangos bod clinigwyr yn awr yn meddwl yn wahanol iawn am sut hoffent ddarparu gofal diogel yn y dyfodol. Cododd aelod o'r CIC bryder o ran dibynadwyedd brysbennu neu ymgynghoriadau dros y ffôn a bod hyn yn gallu arwain at israddio sgiliau staff. Bu i'r Prif Weithredwr Dros Dro gydnabod, er bod cleifion yn cael eu blaenoriaethu'n glinigol, roedd niwed a thralod yn cael ei achosi gan yr oedi o ran cael mynediad at ofal. Nododd y Prif Swyddog CIC bod y niferoedd yn achosi pryder yn nhermau'r rheiny sydd wedi bod yn aros ers amser hir ond roedd yn derbyn nad oedd yr ystod o ddatrysiadau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol yn briodol neu'n bosibl dan y sefyllfa bresennol. Rhoddodd Gadeirydd y Bwrdd lechyd sicrwydd i'r CIC bod sgysrsiau calonogol ar waith gydag Uned Darparu LLC o ran symud ymlaen gyda'r canolfannau diagnostig a thriniaeth fel datrysiad. Dywedodd y bydd yn hysbysu'r CIC o'r trafodaethau a gynhelir yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn hwyrach ymlaen y mis hwnnw. Holodd Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid o ran lle oedd Gogledd Cymru o'i chymharu â Byrddau eraill, a p'un ai y gellid cyflymu buddsoddiad gan LLC. Nodwyd bod yr holl Fyrddau lechyd yn adrodd ar ôl-groniadau sylweddol a bod y niferoedd yn uwch yng Ngogledd Cymru. Nododd Cadeirydd y Bwrdd lechyd eu bod yn gobeithio y byddant yn gwybod beth fyddai canlyniad sgysrsiau ehangach o ran cefnogaeth ariannol ychwanegol gan LLC erbyn mis Tachwedd. Cyfeiriodd Cadeirydd y CIC at y capasiti cyfyngedig o fewn gwasanaethau sgrinio a gafodd eu camu i lawr ar ddechrau'r pandemig, yn enwedig yr effaith ar gleifion mewn perthynas â sgrinio llygaid diabetig a oedd yn un o'r rhai olaf i ddechrau. Derbyniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned, fel carfan o gleifion lle bu i'w apwyntiad monitro llygaid diabetig gael ei oedi, roedd yn debygol y byddai rhai ohonynt wedi datblygu arwyddion rhybuddio o ganlyniad. Rhoddodd sicrwydd i'r CIC bod y Bwrdd yn dechrau haenu sut i fynd yn ôl i wneud y sgrinio hwn i sicrhau bod y rheiny sydd â'r risg uchaf yn cael eu gweld gyntaf, fodd bynnag, roedd hwn yn ddarn o waith logistaidd sylweddol.</p>	MP
<p>B20/5.4 Rheoli'r Achosion o Covid-19</p> <p>B20/5.4.1 Bu i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned roi cyflwyniad a oedd yn nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod lefelau cynyddol o heintiau coronafirws wedi bod o fewn lleoliadau cymuned dros yr wythnosau diwethaf; • Bod y dosbarthiad cyfredol wedi'i ledaenu ar draws pob ystod oedran; • Bod gwelliannau wedi bod mewn triniaethau ers y don gyntaf a bod proffil ymchwil gweithredol o fewn BIPBC a oedd yn cyfrannu at ddysgu rhyngwladol; • Bod datblygu rhaglen frechu yn parhau a all gael ei ddefnyddio unwaith bydd brechiad ar gael; • Tynnwyd sylw at bwysigrwydd y brechiad fflw; 	

- Bod proses cynllunio gweithredu ar waith ar gyfer yr ail don lle byddai gwaith partneriaeth yn hanfodol, ynghyd â dull fesul cam i sicrhau bod gofal cychwynnol a gwasanaethau cymuned yn cael eu darparu;
- Bod cynllunio gweithredu ar gyfer gwasanaethau gofal eilaidd yn parhau o ran adolygu'r llwybr, profion cynnar i gleifion mewnol, profi cleifion cartrefi gofal cyn eu rhyddhau a chynlluniau ymchwydd.
- Bod cynlluniau uwch gyfeirio hefyd yn ymgorffori defnydd posibl yr ysbytai enfys dros dro i sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng manteision cael lle ychwanegol a'r adnoddau staffio ychwanegol a fydd ei angen;
- Dengys yr ystadegau bod cynnydd wedi bod ymysg cleifion Covid symptomatig mewn meddygfeydd, a chynnydd sylweddol yn y nifer yr achosion fesul 100,000 o bobl.

B20/7 Gwasanaethau Fasgwlaidd

B20/7.1 Bu i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro roi cyflwyniad a oedd yn nodi:

- Bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwasanaethau Fasgwlaidd wedi'i sefydlu ym mis Mai 2020;
- Bod Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (Lloegr) a'r Gymdeithas Arbenigedd Llawfeddygol wedi cytuno i wneud yr adolygiad gwahoddedig a fyddai'n cynnwys ystod o feysydd yn cynnwys ansawdd a diogelwch gofal llawfeddygol, ymddygiadau a gwaith tîm, dylunio gwasanaeth/rhwydwaith, llywodraethu clinigol, cyfathrebu â chleifion a gwaith amlddisgyblaethol;
- Bod ymweliad ar y cyd gyda'r CIC i Ysbyty Glan Clwyd wedi'i gynnal ar 13.8.20 lle cafwyd adborth cadarnhaol gan yr aelodau;
- Bod y cynllun gweithredu fasgwlaidd a gafodd ei ddatblygu yn canolbwyntio ar alinio lleoliad gwelyau fasgwlaidd, llwybrau gofal, cyfathrebu ac ymgysylltu, ansawdd a diogelwch a mynediad at y gwasanaeth;
- Bod alinio'r gwelyau fasgwlaidd yn ffurfio rhan o ddatblygu llwybrau clinigol;
- Bod amserlen ar gyfer cyflwyno llwybrau i'r Grŵp Cynghori Clinigol wedi cael ei gymeradwyo;
- Bod adnodd wedi'i ddiogelu drwy'r Swyddfa Rheoli Rhaglen i gefnogi datblygiad llwybr troed diabetig nad yw'n wythiennol;
- Gellid dangos gwaith ar y cyd sylweddol a chadarnhaol ar gyfathrebu ac ymgysylltu wrth gasglu adborth am brofiad cleifion mewn lleoliadau cleifion allanol a chleifion mewnol;
- Byddai datblygu dangosfwrdd ansawdd a diogelwch ar gyfer gwasanaethau fasgwlaidd yn helpu triogli data a dynodi tueddiadau;
- Yn nhermau mynediad, nodwyd bod gwasanaethau fasgwlaidd brys wedi parhau i gael eu darparu drwy gydol y pandemig er bod capasiti cyfyngedig mewn cleifion allanol a theatr achos dydd;
- Bod cynllun adfer wedi cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Cynghori Clinigol ac felly wedi cael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro a'r Tîm Gweithredol.

B20/7.2 Cafwyd trafodaeth. Cadarnhaodd Prif Swyddog CIC y byddai'r CIC yn ail-wneud ei ymarferiad ymgysylltu yn nhermau gwasanaethau fasgwlaidd. Bu iddo hefyd gyfeirio at adolygiadau tebyg yn Ne Cymru a bu i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro gadarnhau bod BIPBC wedi bod yn cyfathrebu â chyfathrebwyr i rannu dysg. Nododd aelod o'r CIC ei fod wedi derbyn gwasanaethau a gofal fasgwlaidd ar Ward 3 a byddai'n rhoi adborth fel defnyddiwr gwasanaeth o fewn y grŵp gorchwyl a gorffen. Roedd eisiau dweud

bod pob cyswllt â staff wedi bod yn gadarnhaol iawn a bu iddo dynnu sylw at y ffaith y dylai'r claf fod wrth wraidd unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth bob amser. Myfyriodd Cadeirydd y Bwrdd lechyd ar ei ymweliad diweddar i'r ganolfan fasgwlaidd yn YGC yr oedd wedi'i weld yn fuddiol iawn a nododd bod y staff a'r clinigwyr wedi bod yn agored o ran beth oedd wedi gweithio'n dda a beth oedd angen ei wella. Cytunodd y CIC ac roeddent hefyd yn dymuno cydnabod brwdfrydedd y staff yn y ganolfan. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro bod y staff eu hunain wedi cael eu hannog gan yr ymweliad a'r ddeialog a gafwyd gydag aelodau'r Bwrdd. Roedd y Prif Weithredwr Dros Dro yn dymuno diolch i'r cydweithwyr CIC a'r defnyddwyr gwasanaeth am eu cefnogaeth yn y maes hwn o waith ac awgrymodd y gellid, o bosibl, trosglwyddo'r model i fynd i'r afael ar yr heriau mewn gwasanaethau eraill, e.e. iechyd meddwl.

B20/8 Cau Cartref Nyrsio Pwyleg Penrhos

B20/8.1 Bu i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned roi cyflwyniad a oedd yn nodi:

- Bod Bwrdd y Gymdeithas sy'n rhedeg y cartref nyrsio wedi dod ar draws anawsterau amlffactoraidd ers peth amser yn nhermau'r gallu i fodloni safonau cyfredol;
- Bod y Bwrdd lechyd a phartneriaid/rheolyddion eraill wedi bod yn gweithio gyda hwy gyda'r un nod o ddiogelu lles y perswylwyr;
- Bod Bwrdd y Gymdeithas yn awr wedi dod i gasgliad nad ydynt yn gallu parhau ac felly mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddynodi opsiynau ar gyfer y proses cau;
- Bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan y Bwrdd lechyd i sicrhau diogelwch gofal yn ystod y trefniadau trosglwyddo;
- Yn nhermau darpariaeth ar gyfer y dyfodol, roedd grŵp prosiect yn cwrdd i ddatblygu gwasanaethau cymuned diogel a chynaliadwy gyda chyfranogiad parhaus preswylwyr, teuluoedd a rhanddeiliaid.

B20/8.2 Cafwyd trafodaeth. Codwyd pryder gan Gadeirydd y CIC o ran digonolrwydd y ddarpariaeth yn fwy cyffredinol o fewn yr ardal. Nodwyd bod defnyddio Ysbyty Bryn Beryl wedi cael ei godi fel opsiwn posibl ond nid oedd yn hyderus y byddai hynny'n darparu'r datrysiad gorau. Dywedodd hefyd petai unrhyw ddatrysiad ar gyfer y dyfodol yn cynnwys newid mawr i'r gwasanaeth yna dylai'r CIC ymgysylltu cyn gynted â phosibl. Cytunodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned na fyddai Ysbyty Bryn Beryl yn opsiwn tymor hir priodol i'r preswylwyr hynny sydd yng Nghartref Gofal Penrhos ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd yn ffurfio rhan o gynlluniau brys y Bwrdd petai rhaid ail-gartrefu'r preswylwyr yn sydyn. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau na ystyrir hyn yn risg uniongyrchol ond byddai'r timau sy'n gweithio ym Mryn Beryl yn gallu rhoi cefnogaeth i'r garfan o breswylwyr allan yn y gymuned. Yn nhermau newid gwasanaeth, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned sicrwydd i'r aelodau, ni waeth p'un ai tybir bod y newid yn arwyddocaol neu beidio, byddai'r Bwrdd lechyd yn cynnwys y CIC ar bob cam. Croesawodd Prif Swyddog CIC y sylwadau hyn. Cyfeiriodd Cadeirydd y Bwrdd lechyd at sylwadau a sylw yn y cyfryngau a oedd yn awgrymu mai'r Bwrdd lechyd oedd yn llwyr gyfrifol am wneud penderfyniadau am ddarpariaeth y dyfodol ac roedd yn dymuno cadarnhau y byddai datrysiad yn gorfod bod yn un y bartneriaeth drwy waith ar y cyd y grŵp prosiect.

B20/9 Mynediad at Ddeintyddiaeth y GIG yng Ngogledd Cymru

B20/9.1 Bu i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned roi cyflwyniad a oedd yn nodi:

- Bod deintyddiaeth wedi cael ei effeithio arno o ganlyniad i'r pandemig ond roedd hyn yn llai amlwg nag yr oedd i wasanaethau GIG eraill;
- Bod cynllun wedi'i gytuno arno ar draws Cymru i haenu triniaethau i ganiatáu bod gofal cymhleth yn parhau i gael ei wneud;
- Y brif risg sy'n gysylltiedig â defnyddio triniaethau sy'n cynhyrchu erosol a oedd yn rhoi'r unigolion hynny o fewn yr ardal mewn risg uwch ac yn gofyn am lefel uwch o offer diogelu personol;
- Bod 1:50 o'r marwolaethau yn ystod y don gyntaf yn cynnwys gweithiwr rheng flaen;
- Bod dull coch-oren-gwyrdd wedi'i fabwysiadu ar gyfer deintyddiaeth gyda'r cam coch yn ystod mis Ebrill i Fehefin 2020 ar gyfer gofal brys a ddarperir ar nifer cyfyngedig o leoliadau gydag offer diogelu priodol. Ym mis Gorffennaf, symudodd deintyddiaeth i'r cam oren gan ailgyflwyno mwy o driniaethau ar draws mwy o leoliadau.
- Bod y rhan fwyaf o apwyntiadau arferol yn parhau i gael eu hoedi a bod timau deintyddol yn awr yn gweithio i ddal i fyny ar waith a oedd wedi'i oedi, fodd bynnag, byddai lefel ail don Covid yn effeithio ymhellach ar gynnydd.
- Bod gwaith yn parhau o ran gweithredu Uned Hyfforddiant Deintyddol yng Ngogledd Cymru a oedd yn ffurfio rhan o'r strategaeth i ddod a mwy o ddeintyddion a staff uwch i'r ardal.

B20/9.2 Cafwyd trafodaeth. Holodd aelod o'r CIC o ran beth oedd y broses gyfredol ar gyfer cael mynediad at ofal deintyddol brys. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned y dylai cleifion sydd wedi cofrestru barhau i gysylltu â'u deintydd eu hunain a fyddai'n rhoi cyngor ar driniaethau drwy lwybr cytunedig ar gyfer gofal brys. Byddai deintyddion yn darparu'r gofal y gallent ei ddarparu yn ddiogel ond ar gyfer triniaethau sy'n gofyn am awyriad er enghraifft, byddai'r claf yn cael ei gyfeirio at ganolfan uwch. Roedd y Gwasanaeth Deintyddol Brys yn parhau i ddarparu pob elfen o ofal deintyddol brys ar gyfer cleifion heb gofrestru. Mewn ymateb i gwestiwn o ran y nifer o glinigau gwasanaeth Deintyddol Brys a'u lleoliad, cadarnhawyd bod y rhain wedi'u lleoli o fewn y trefi mwyaf sydd â phoblogaeth uwch, fodd bynnag, gofynnwyd i rai deintyddion Stryd Fawr unigol petaent yn gallu cymryd gweithgaredd ychwanegol. Nododd Cadeirydd y Bwrdd lechyd ei fod wedi siarad â staff y Gwasanaeth Deintyddol Brys mewn ymweliad diweddar i ysbytai cymuned a oedd yn hapus i fod yn ôl yn gweithio ar safleoedd ysbytai cymuned.

B20/10 Mesurau Arbennig

B20/10.1 Bu i'r Prif Weithredwr Dros Dro gyflwyno'r papur a ddynododd ystod o feysydd lle mae cynnydd wedi bod a'r meysydd lle'r oedd angen gwneud mwy o waith arnynt, fel iechyd meddwl. Bu iddi groesawu mewnbyn y CIC yn nhermau sut oedd gwasanaethau angen cael eu siapio fel rhan o ddatblygu strategaeth glinigol. O ran llywodraethu a rheoli risg bu iddi gynghori'r aelodau o benodiad Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro i helpu'r Bwrdd i ddatblygu'r meysydd hyn ar gyflymdra. Yn nhermau sefydlogrwydd arweinyddiaeth ar gyfer y Bwrdd lechyd roedd yn falch bod y sefydliad am groesawu Prif Weithredwr newydd ym mis Ionawr a bod y recriwtio yn parhau ar gyfer swyddi eraill fel Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol parhaol. O ran perfformiad nododd y Prif Weithredwr Dros Dro bod y sefydliad yn awr yn mesur niwed yn hytrach na'r amser aros ac yn parhau i weithio'n agos â LLC a'r

gymuned iechyd ehangach o ran bod yn dryloyw wrth reoli hyn. Roedd gwaith yn parhau gyda LLC o ran pecynnau cefnogi ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, a darpariaeth fwy strategol o ran darparu gofal wedi'i gynllunio a heb ei drefnu. Bu iddi ddod i gasgliad drwy dynnu sylw at bwysigrwydd y strategaeth glinigol a sefydlu canolfannau diagnostig a thriniaeth i sicrhau y gellid darparu gwelliannau ar sail tymor hir.

B20/10.2 Cafwyd trafodaeth. Codwyd pryder gan aelod o'r CIC y gall mesur niwed fod yn broses goddrychol, a bu i'r Prif Weithredwr Dros Dro dderbyn ei fod yn heriol gan y gall risg o niwed i unigolyn newid dros nos a bod angen gweithio'n ddeinamig. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod hyn yn cael ei wneud ar sail glinigol gyda chefnogaeth clinigwyr. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro ei gefnogaeth o ran y dull a phwysigrwydd perchnogaeth glinigol. Nodwyd hefyd bod matrices risg o bob Coleg Brenhinol ar gael i glinigwyr a bod gan Feddygon Teulu hefyd yr hyblygrwydd i gael mynediad at gefnogaeth arbenigol petaent yn teimlo bod claf yn dirywio. Croesawyd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd y cynnydd yn nhermau sefydlu tîm arweinyddiaeth gweithredol parhaol. Bu iddo hefyd ychwanegu bod y cyfeiriad strategol sefydliadol ar gyfer y misoedd nesaf yn allweddol a bod Gweithdy Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer y prynhawn hwnnw o ran y Cynlluniau Chwarter 3 a 4. Bu iddo hefyd gyfeirio at y gwaith a wnaed yn barod i gynnig dull mwy cydlynol at ofal wedi'i gynllunio a dadansoddi galw a chapasiti, gan ddynodi ei fod yn gobeithio y byddai sefyllfa gliriach gyda LLC cyn y Nadolig.

B20/11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

B20/11.1 Cadarnhaodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd y byddai'r cyfarfod bwrdd ar y cyd nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai 2021, fodd bynnag, bydd yn hapus i ystyried cyfleoedd cynt am drafodaeth petai materion brys yn codi.